

Adroddiad Blynyddol ar y Gymraeg yn Estyn 2018-2019

Mae'r seithfed adroddiad blynyddol hwn yn cynnwys crynodeb o gynnydd a wnaed rhwng Mawrth 2018 ac Ebrill 2019 yn erbyn y blaenoriaethau a nodwyd yn adroddiad y llynedd.

Blaenoriaethau ar gyfer 2018- 2019

- 1. Peilota a datblygu proses o hunanasesu ac asesu cymheiriaid o fewn timau gwahanol er mwyn dadansoddi i ba raddau rydym yn cydymffurfio â'r Safonau Iaith a sut y gallem wella ein perfformiad a'n gwasanaethau.**
- 2. Cyfrannu at ddatblygiadau i gynhyrchu 'goslef llais' neu gywair corfforaethol i Estyn a sicrhau bod y Gymraeg yn rhan o'r datblygiad hwn.**
- 3. Defnyddio hyfforddiant Cyfarch/Cymraeg Sylfaenol ar-lein gyda'r holl staff perthnasol er mwyn annog y defnydd o'r Gymraeg yn fewnol ac yn allanol.**
- 4. Rhoi cyfleoedd i AEM perthnasol gysgodi arolygiadau cyfrwng Cymraeg er mwyn cynyddu nifer yr arolygwyr sy'n gallu arolygu trwy gyfrwng y Gymraeg.**

Cyflwyniad

Rydym wedi gwneud cynnydd da o ran y blaenoriaethau uchod yn ystod y flwyddyn a bwriad yr adroddiad hwn yw adlewyrchu ac enghreifftio'r cynnydd hwnnw.

Yn ogystal â'r blaenoriaethau hyn, mae'n werth nodi bod defnyddio'r Gymraeg yn ein gwaith o ddydd i ddydd yn cael ei normaleiddio fwyfwy. Er ei bod hi'n anodd mesur hyn yn systematig, mae'n amlwg, er enghraifft, yn y nifer cynyddol o negeseuon sy'n cael eu hanfon at yr holl staff yn ddwyieithog gan eu cymheiriaid ac uwch reolwyr; mwy o ddefnydd o'r Gymraeg gan staff corfforaethol â dysgwyr, yn achlysurol ac mewn sgysiau am waith; yr ymwybyddiaeth gynyddol o'r gofynion iaith; ac ewyllys da yn gyffredinol gan bron bob un o'r staff tuag at yr iaith.

Yn ystod yr wythnos hyfforddiant, caiff mwy o gyflwyniadau gan AEM i'w cymheiriaid eu paratoi'n ddwyieithog ac mae'r esiampl a osodir gan uwch reolwyr yn helpu i sefydlu ac annog yr arfer hon.

Hefyd, mae'n werth nodi bod Safonau'r Gymraeg wedi bod yn sbardun pwysig o ran galluogi Estyn i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn ein gwaith bob dydd.

- 1. Peilota a datblygu proses o hunanasesu ac asesu cymheiriaid o fewn timau corfforaethol gwahanol er mwyn dadansoddi i ba raddau rydym yn cydymffurfio â'r Safonau Iaith a sut y gallem wella'r modd y cyflwynwn ein gwasanaethau iaith Gymraeg.**

Mae'r broses hon yn cynnwys gofyn i aelod o'r tîm perthnasol yn y gwasanaethau cymdeithasol drafod â chydweithwyr a pharatoi dadansoddiad byr o'r ffordd y maent yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Yn ystod cyfarfod y Gweithgor Iaith Gymraeg,

caiff y safonau sy'n berthnasol i'r tîm corfforaethol hwnnw eu dangos ar y sgrin ac mae aelod arweiniol y staff â chyfrifoldeb am y safonau penodol hynny yn siarad amdanynt, gan esbonio sut maent yn dehongli'r safon yn eu cyd-destun nhw. Mae hyn yn arwain at gwestiynau ac awgrymiadau gan aelodau eraill y grŵp, sy'n helpu i ddatrys unrhyw faterion lletchwith yn ogystal â mireinio'n dealltwriaeth gyfunol o ofynion y safonau. Mae'r arfer hon wedi bod yn fuddiol i bawb sydd ynghlwm ac mae'n datblygu'n broses effeithiol o adolygu gan gymheiriaid. Mae hyn yn ein helpu i hunanwerthuso ein cydymffurfedd â'r safonau.

Hyd yn hyn, mae'r Cydlynwyr Adnoddau Dynol, Cyfathrebu ac Arolygu wedi bod drwy'r broses hon. Gweler **Atodiad 6 am ddadansoddiad tîm y Cydlynwyr Arolygu.**

Mae'r broses hon yn eitem sefydlog yn ein cyfarfodydd tymhorol.

2. Cyfrannu at ddatblygiadau i gynhyrchu 'goslef llais' neu gywair corfforaethol i Estyn a sicrhau bod y Gymraeg yn rhan o'r datblygiad hwn.

Mae hwn yn waith sy'n mynd rhagddo o hyd ar draws y sefydliad. Fodd bynnag, codwyd perthnasedd hyn i'r Gymraeg mewn cyfarfodydd ac mae'r Gweithgor Iaith Gymraeg wedi trafod sut gall goblygiadau cywair iaith fod yn wahanol i'r Gymraeg, er enghraifft y defnydd o Gymraeg gorffurfiol mewn negeseuon trydar ac ar y cyfryngau cymdeithasol yn gyffredinol. Rydym wedi trafod y datblygiad hwn gyda'n gwasanaeth cyfieithu i sicrhau bod goslef ein cyfieithiadau yn cyd-fynd â'r cywair bwriadedig.

Oherwydd bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo o hyd, bydd yn parhau'n flaenoriaeth yn 2019-20.

3. Defnyddio hyfforddiant Cyfarch/Cymraeg Sylfaenol ar-lein gyda'r holl staff perthnasol er mwyn annog y defnydd o'r Gymraeg yn fewnol ac yn allanol.

Mae pob aelod newydd o staff yn derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith fel rhan o'r broses sefydlu (gweler Atodiad 5). Yn ogystal, mae disgwyl i'r holl staff newydd fanteisio ar y cwrs blasu ar-lein 10 awr yn Gymraeg, sef 'Croeso', sy'n cael ei ddarparu'n rhad ac am ddim o dan y cynllun Cymraeg Gwaith, o dan nawdd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae cwrs 10 awr pellach, sef 'Croeso'n Ôl', ar gael i staff hefyd. Mae'r cyrsiau'n cyflwyno cyfarchion ac ymadroddion cyffredin, a sut i ateb ymholiadau sylfaenol yn bersonol a thros y ffôn. Mae'r adborth gan ddechreuwr newydd wedi bod yn gadarnhaol ac, yn gyffredinol, teimlant fod y cwrs yn fuddiol ac yn ddefnyddiol iddynt.

Mae'n werth nodi bod AEM wedi manteisio hefyd ar y cyfleoedd a gynigir drwy Gymraeg Gwaith, drwy fynychu cyrsiau dwys, pum niwrnod, yn Nant Gwrtheyrn. Roedd y cyrsiau'n fuddiol iddynt ac yn berthnasol i'w gwaith, a chanmolwyd safon yr addysgu. (Gweler Atodiad 4).

4. Rhoi cyfleoedd i AEM perthnasol gysgodi arolygiadau cyfrwng Cymraeg er mwyn cynyddu nifer yr arolygwyr sy'n gallu arolygu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Dywed AEM eu bod yn teimlo'n fwy hyderus o lawer i ddefnyddio'u medrau Cymraeg yn rhagweithiol mewn arolygiad neu yn ystod hyfforddiant allanol a digwyddiadau i randdeiliaid, ar ôl bod ar gyrsiau dwys; er enghraifft, arolygu darpariaeth y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a siarad â rhanddeiliaid yn Eisteddfod yr Urdd. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys trafod â siaradwyr Cymraeg yn ystod arolygiadau addysg bellach a dysgu yn y gwaith, a hwyluso grwpiau Cymraeg eu hiaith mewn hyfforddiant diweddar.

Mae un AEM wedi cysgodi arolygiad cyfrwng Cymraeg yn y sector nas cynhelir. Roedd y profiad yn ddefnyddiol ac fe wnaeth hoelio sylw'n dda ar y math o iaith sy'n angenrheidiol er mwyn chwarae rhan weithgar yn y broses arolygu. Nododd yr arolygydd yn fuddiol mai un o'r rhwystrau mwyaf rhag arolygu trwy gyfrwng y Gymraeg (yn hytrach na dysgu'r iaith yn fwy cyffredinol) yw lefel yr iaith arbenigol a ddefnyddiwn. Ar y cyfan, wrth siarad, gall arolygwyr reoli'u cynnwys ieithyddol eu hunain. O ganlyniad, gall arolygwyr weithredu'n briodol gyda dealltwriaeth weddol sicr o'r brif eirfa (e.e. y Gymraeg ar gyfer y meysydd arolygu, geiriau barnau, ac ati). Fodd bynnag, nid yw arolygwyr yn gallu rhagweld pa gwestiynau y bydd eraill, gan gynnwys arweinwyr, yn eu gofyn. O ganlyniad, mae'n hanfodol bod arolygwyr yn datblygu'r ddealltwriaeth ehangaf posibl.

Cyflwynodd y cwrs preswyl pwrpasol i staff ac arolygwyr Estyn yn Nant Gwrtheyrn y llynedd, o dan gynllun Cymraeg Gwaith, rywfaint o'r eirfa arbenigol hon. Fodd bynnag, dylid tynnu sylw arolygwyr at yr angen iddynt adolygu ac ymgyfarwyddo â geirfa arolygu cyn cysgodi arolygiadau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cadw cofnodion

Yn unol â'r flwyddyn ariannol, rydym yn cadw cofnod o nifer y cwynion sy'n ymwneud â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg (pa un a yw'r gŵyn yn ymwneud â'r safonau yr ydym o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw ai peidio). Yn ystod 2018-19, ni dderbyniwyd unrhyw gŵynion am ein gwasanaethau iaith Gymraeg.

Rydym yn monitro'n agos ansawdd ein gwasanaethau iaith Gymraeg ac yn cadw cofnod o'r hyn a wnawn i sicrhau y cydymffurfir â'r safonau llunio polisi. Rydym yn cadw cofnod (yn dilyn asesiadau o sgiliau iaith Gymraeg), o nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg (gweler atodiadau 1 a 2 isod). Rydym yn cadw cofnod yn ogystal o nifer a chanran yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi yn y Gymraeg a/neu gyrsiau ymwybyddiaeth iaith (gweler atodiad 5 isod).

Rydym yn cadw cofnod o nifer y swyddi gwag yr aseswyd bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol, yn ddymunol, ddim yn angenrheidiol neu y mae angen dysgu Cymraeg ar eu cyfer.

Cynhaliwyd chwe ymgyrch recriwtio yn ystod 2018-19.

- Swyddog Polisi – medrau Cymraeg yn ddymunol
- Cyfarwyddwr Cynorthwyol – medrau Cymraeg yn ddymunol

- Swyddog Cyllid – medrau Cymraeg yn ddymunol
- Swyddog Ymchwil Gwybodaeth – medrau Cymraeg yn ddymunol
- Arolygydd Ei Mawrhydi – hysbysebwyd nifer o swyddi, gyda'r Gymraeg yn hanfodol ar gyfer rhai ohonynt.
- Uwch Swyddog Ystadegau – medrau Cymraeg yn ddymunol

Blaenoriaethau ar gyfer 2019-20

- 1. Parhau â phroses o hunanasesu ac asesu cymheiriaid o fewn timau gwahanol, a datblygu'r broses hon, er mwyn dadansoddi i ba raddau rydym yn cydymffurfio â'r Safonau Iaith a sut y gallem wella ein perfformiad a'n gwasanaethau.**
- 2. Cyfrannu at ddatblygiadau i gynhyrchu 'goslef llais' neu gywair corfforaethol i Estyn a sicrhau bod y Gymraeg yn rhan o'r datblygiad hwn.**
- 3. Parhau i ddarparu cyfleoedd i AEM perthnasol gysgodi arolygiadau cyfrwng Cymraeg er mwyn cynyddu nifer yr arolygwyr a all arolygu trwy gyfrwng y Gymraeg. Sicrhau bod gan staff corfforaethol sy'n dysgu Cymraeg ddigon o gyfleoedd i ddefnyddio'u medrau iaith yn y gweithle.**
- 4. Nodi cyfleoedd sy'n gwella'n perfformiad a'n golwg fel sefydliad dwyieithog. Er enghraifft, cynhyrchu laniardau sy'n cynnwys logo Cymraeg Gwaith a brandio Estyn.**

Atodiadau

Atodiad 1: Nifer a chanran y staff yng ngwasanaethau'r sefydliad sy'n medru'r Gymraeg ar 31 Mawrth 2019 (cyfwerth ag amser llawn)

- Fesul adran
- Yn ôl gradd y swydd

Staff	Nifer y staff Ar 31/03/2019	Nifer y siaradwyr Cymraeg Ar 31/03/2019	Canran
PAEM	1	1	100%
Cyfarwyddwyr Strategol	2	1	50%
Staff arolygu			
Cyfarwyddwyr Cynorthwyol	6	4	67%
AEM	48	19	40%
Arolygwyr Ychwanegol (secondiadau)	6	1	17%
Arolygwyr Ychwanegol (cyfnod penodol)	2	0	0%
Cyfanswm (ac eithrio PAEM)	64	25	39%
Staff corfforaethol			
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol	1	0	0%
Gradd 7	4	2	50%
Uwch-swyddogion Gweithredol	3	0	0%
Swyddogion Gweithredol Uwch	8	3	38%
Swyddogion Gweithredol	20	6	30%
Swyddogion Gweinyddol	13	3	23%
Cyfanswm	49	14	29%
Cyfanswm Staff Arolygu a Chorfforaethol	114	40	35%

Atodiad 2: Staff arolygu sy'n gallu arolygu trwy gyfrwng y Gymraeg fel canran o'r holl staff arolygu (cyfwerth ag amser llawn)

	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2018	31 Mawrth 2019
Staff arolygu sy'n gallu arolygu trwy gyfrwng y Gymraeg	25	22	25	25
Cyfanswm staff arolygu	64	64	60	64
Canran	39%	34%	42%	39%

Atodiad 3: Nifer yr arolygwyr cymheiriaid yn ôl cyfrwng 2018/19

	Cymraeg	Saesneg
Dysgu oedolion yn y gymuned	2	11
Ysgolion pob oed	13	8
Addysg bellach	9	64
Annibynnol pob oed	0	26
Annibynnol prif ffrwd	0	29
Annibynnol Arbennig (gan gynnwys Colegau)	1	17
Awdurdodau Lleol	8	17
Arbennig a gynhelir	1	21
Cynradd	114	307
Unedau cyfeirio disgyblion	0	7
Uwchradd	56	140
Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon	1	11
Dysgu yn y gwaith	1	28
Cymraeg i Oedolion	14	0
Cyfanswm	220 32% 30% heb Gymraeg i Oedolion	686

Tachwedd 2017

	Cymraeg	Saesneg
Dysgu oedolion yn y gymuned	0	2
Ysgolion pob oed	7	3
Consortia	2	13
Addysg bellach	15	97
Annibynnol pob oed	0	11
Annibynnol preifat	0	2
Awdurdodau Lleol	3	8
Arbennig a gynhelir	2	21
Ysgolion nas cynhelir	1	0
Cynradd	100	312
Unedau cyfeirio disgyblion	0	4
Uwchradd	46	138
Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon	0	2
Dysgu yn y gwaith	1	13
Cyfanswm	177 28%	626

Atodiad 4: Hyfforddiant iaith Gymraeg 2018-2019

Math	Nifer y staff	Darparwr	Lleoliad	Diwrnod au
Cyrsiau mewnol a gynhaliwyd yn y swyddfa				
Mynediad	5	Dysgu Cymraeg Morgannwg (Prifysgol De Cymru)	Llys Angor	25
Sylfaen	7	Dysgu Cymraeg Morgannwg (Prifysgol De Cymru)	Llys Angor	40.5
Cyrsiau allanol				
Arholiad Sylfaen	2	Dysgu Cymraeg Caerdydd (Prifysgol Caerdydd)	Caerdydd	1
Cwrs Haf: Sylfaen 2 CDS401	1	Dysgu Cymraeg Caerdydd (Prifysgol Caerdydd)	Caerdydd	10
Cwrs Mynediad – Preswyl	1	Dysgu Cymraeg Nant Gwrtheyrn	Nant Gwrtheyrn	5
Canolradd – Preswyl	1	Dysgu Cymraeg Nant Gwrtheyrn	Nant Gwrtheyrn	5
Uwch – Preswyl	1	Dysgu Cymraeg Nant Gwrtheyrn	Nant Gwrtheyrn	5
Sylfaen 1 a 2 Cyfunol	1	Dysgu Cymraeg Caerdydd (Prifysgol Caerdydd)	Caerdydd	2
Cwrs Canolradd 2	1	Dysgu Cymraeg Caerdydd (Prifysgol Caerdydd)	Caerdydd	2
Canolradd 1 a 2 (Dysgu Cyfunol)	1	Dysgu Cymraeg Caerdydd (Prifysgol Caerdydd)	Caerdydd	5
Cymraeg Canolradd Rhan 1	1	Dysgu Cymraeg Morgannwg (Prifysgol De Cymru)	Pentre'r Eglwys	5
Sadwrn Siarad	1	Dysgu Cymraeg Caerdydd (Prifysgol Caerdydd)	Caerdydd	5

Cyfanswm: 16 aelod o staff a 110.5 diwrnod

(20 aelod o staff a 98 diwrnod yn 2017 – 18)

Atodiad 5: Nifer y staff a dderbyniodd hyfforddiant sefydlu iaith Gymraeg a hyfforddiant penodol trwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'r holl staff, gan gynnwys staff dros dro neu staff asiantaeth, yn derbyn hyfforddiant sefydlu iaith Gymraeg fel rhan o'u rhaglen sefydlu gan yr AEM sydd â chyfrifoldeb am y Gymraeg. Caiff hyn ei amserlennu gan yr adran adnoddau dynol fel rhan o raglen sefydlu staff newydd. Mae'r hyfforddiant hwn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth fras am hanes yr iaith a'i lle yn hanes Cymru, dealltwriaeth o ofynion Safonau'r Gymraeg a dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Yn ystod 2018-2019, ymunodd 16 aelod newydd o staff ag Estyn mewn swyddi gwahanol. (Chwe aelod o staff arolygu a deg aelod o staff corfforaethol). Darparwyd hyfforddiant i bob un ohonynt.

Atodiad 6 – Adroddiad a baratowyd gan Gydlynwyr Arolygu i'w adolygu gan gymheiriaid

Safon 1 – Os byddwch yn cael unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth berson, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg.

Er bod y Safon hon wedi'i bodloni, dylid atgoffa aelodau tîm fod RHAID ymateb trwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ohebiaeth/negeseuon e-bost sy'n dod i law trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. O ran gohebiaeth/negeseuon e-bost dwyieithog, dylid ymateb i'r rhain yn ddwyieithog hefyd.

GWEITHREDU GOFYNNOL: Atgoffa Cydlynwyr Arolygu fod rhaid ymateb trwy gyfrwng y Gymraeg i ohebiaeth/negeseuon e-bost cyfrwng Cymraeg

Safon 4 – Pan fyddwch yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau, rhaid ichi anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd ag y byddwch yn anfon unrhyw fersiwn Saesneg ohoni.

Yn ystod yr alwad hysbysu, gofynnir i ddarparwyr am eu hiaith o ddewis ar gyfer cyfathrebu a bydd y CydAr yn ymateb yn unol â hynny. Hefyd, gofynnir a oes angen fersiwn ddwyieithog o'r adroddiad arnynt, ni waeth beth yw iaith y darparwr. Wrth hysbysu'r Awdurdod Lleol am Arolygiad Craidd, rhaid i'w llythyr hysbysu fod yn ddwyieithog oherwydd dyma'r ohebiaeth gyntaf ynghylch yr arolygiad. Os bydd angen unrhyw ymweliadau dilynol ar ddarparwr, gall y tîm gweithgarwch dilynol ddefnyddio'r dewis iaith i gyfathrebu â'r darparwr a'r ALI gan fod yr 'Hysbysiad Cychwynnol' wedi'i wneud ar gyfer yr Arolygiad Craidd. Mae angen i ni ddileu'r rhestr o ddewisiadau iaith sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd gan y Tîm.

GWEITHREDU GOFYNNOL: Wrth baratoi dogfennau ar gyfer Arolygiadau Craidd, rhaid paratoi pob llythyr i Awdurdodau Lleol yn ddwyieithog

Safon 5 – Os nad ydych yn gwybod a yw person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthy ch yn Gymraeg rhaid ichi ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth pan fyddwch yn gohebu â'r person hwnnw.

GWEITHREDU GOFYNNOL: Os byddwch yn ansicr, anfonwch ohebiaeth yn ddwyieithog – y Gymraeg yn gyntaf.

Safon 52 – Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan yn Gymraeg.

O ran Ystafelloedd Arolygu Rhithwir, rydym wedi sicrhau bod teitlau/dewislenni/testun yn ddwyieithog lle bynnag y bo'n bosibl wrth drosglwyddo o'r Gymraeg i'r Saesneg. Fodd bynnag, mae rhai ardaloedd o'r YAR yn y Saesneg yn unig ac, er y gwnaed ymdrech i newid hyn, nid yw'n bosibl.

GWEITHREDU GOFYNNOL: A oes posibilrwydd y gellid adolygu hyn wrth uwchraddio gwasanaethau?

Safon 117 - Rhaid ichi sicrhau — (a) bod testun pob tudalen ar eich mewnwyd ar gael yn Gymraeg, (b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich mewnwyd yn gweithredu'n llawn, ac (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich mewnwyd.

O ran Ystafelloedd Arolygu Rhithwir, rydym wedi sicrhau bod teitlau/dewislenni/testun yn ddwyieithog lle bynnag y bo'n bosibl wrth drosglwyddo o'r Gymraeg i'r Saesneg. Fodd bynnag, mae rhai ardaloedd o'r YAR yn y Saesneg yn unig ac, er y gwnaed ymdrech i newid hyn, nid yw'n bosibl.

GWEITHREDU GOFYNNOL: A oes posibilrwydd y gellid adolygu hyn wrth uwchraddio gwasanaethau?

Safon 124 – Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i gael hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd a ganlyn, os ydych yn darparu hyfforddiant o'r fath yn Saesneg— (a) recriwtio a chyfweld; (b) rheoli perfformiad; (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu; (ch) ymsefydlu; (d) delio â'r cyhoedd; ac (dd) iechyd a diogelwch.

Ar hyn o bryd, mae tîm y Cydlynwyr Arolygu yn cyflogi Cydlynwyr Arolygu Cymraeg eu hiaith ar gyfer Arolygiadau Craidd ac Ymweliadau Dilynol. Tra bydd hi fel hyn, gallwn fodloni'r Safon hon a chyflwyno'r hyfforddiant o fewn y tîm. Heb Gydlynwyr Arolygu Cymraeg eu hiaith, nid dyma fyddai'r achos.

DIM GWEITHREDU GOFYNNOL

NODIADAU YCHWANEGOL

Templedi E-bost – er bod templedi e-bost yn ddwyieithog, mae angen i Gydlynwyr Arolygu wirio'u sectorau a bod y testun Cymraeg yn gyntaf yng nghorff yr e-bost ac yn y Pennawd. **GWEITHREDU GOFYNNOL:** Dylai CydAr wirio'u Sectorau

Anfon Negeseuon E-bost at Weinidogion, ASau ac ACau – dylai'r ohebiaeth hon fod yn ddwyieithog bob amser, ni waeth beth yw dewis iaith y darparwr.

GWEITHREDU GOFYNNOL: Sicrhau bod unrhyw ohebiaeth sydd eisoes wedi'i pharatoi yn gywir ac yn ddwyieithog.

Cyfeiriad e-bost CydAr – mae hwn yn Saesneg yn unig, a ellir cael fersiwn Cymraeg hefyd? **GWEITHREDU GOFYNNOL:** Cysylltu â'r Gwasanaethau Gwybodaeth

Enwi dogfennau yn yr YAR – a allwn ni enwi'r dogfennau Cymraeg yn briodol yn hytrach nag ychwanegu 'cy' at ddiwedd yr enw, plis? **GWEITHREDU GOFYNNOL:** Cydlynwyr Arolygu i gytuno ar ffordd ymlaen.


Atodiad 7: Dadansoddi sut mae hyfforddiant allanol/ymgysylltu â rhanddeiliaid yn bodloni gofynion iaith Gymraeg cyfranogwyr

Ymatebodd cyfanswm o 1,338 o gyfranogwyr: teimlai 1,302 (97%) fod y digwyddiad a fynychont wedi bodloni'u hanghenion iaith ac roedd 36 (3%) o'r farn na fodlonwyd eu hanghenion iaith¹.

Nid oedd sawl un o'r 36 o gyfranogwyr a ddewisodd 'na' wedi rhoi unrhyw gyd-destun i'w hateb. O'r rheiny a ddarparodd fwy o gyd-destun, y rhesymau canlynol oedd y mwyaf cyffredin:

- ni ddefnyddiwyd digon o Gymraeg yn ystod y digwyddiad – 11 sylw
- cwynion am gyfieithu ar y pryd (teimlwyd bod siarad Cymraeg yn eu heithrio, roedd newid rhwng ieithoedd yn tarfu, roedd clustffon wedi torri) – 6 sylw
- roedd cyfranogwr eisiau i gyfieithiad o'r Saesneg i'r Gymraeg fod ar gael (nid yw hyn yn wasanaeth y mae cyfieithwyr ar y pryd yn ei ddarparu) – 2 sylw

I raddau helaeth, daeth y sylwadau hyn gan gyfranogwyr a oedd yn mynychu digwyddiadau mwy neu ddigwyddiadau mwy uchel eu proffil, fel cynadleddau ar adroddiadau thematig a Fforwm Cenedlaethol i Randdeiliaid.



¹ Er mai'r un yw'r ffigurau ag ar gyfer boddhad cyfranogwyr, nid yr un bobl o reidwydd yw'r 3% a oedd o'r farn na fodlonwyd eu hanghenion iaith â'r bobl a ddywedodd fod yr hyfforddiant yn 'ddigonol' neu'n 'anfodhaol'.